



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Bartneriaeth DOG Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Gâr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Sir Gâr yn sir fawr, a chyfanswm ei phoblogaeth yn 179,500. Mae 104,300 o'r rhain o oedran gweithio¹. Mae ardaloedd difreintiedig trefol a gwledig yn yr awdurdod unedol. Mae pump o dimau ardal Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi'u lleoli yn

Felin-foel: Glanymor a Thyisha; Pantyffynnon; Llwynhendy; a Bigyn 4. Mae pob un o'r rhain yn ne ddwyrain a dwyrain y sir.

- Mae gan y sir lefelau uchel o ddiffyg cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd (24% o'r boblogaeth oedran gweithio).
- Nid oes gan fwy na 17% o gyfran y boblogaeth oedran gweithio unrhyw gymwysterau. Mae hyn 2% yn uwch na chyfartaledd cyffredinol Cymru a 4.4% yn uwch na Phrydain Fawr.
- Mae dros 19% o'i phoblogaeth oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau; mae 12.2% yn cael budd-daliadau analluogrwydd (Mai 2008).
- Mae medrau llythrennedd dau ddeg wyth y cant o'i phoblogaeth islaw lefel 1 (Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 2004).
- Gweithwyr mudol yw dau y cant o'i phoblogaeth (Cynllun Cofrestru Gweithwyr y Swyddfa Gartref 2007).
- Dosbarthwyd dau pwynt wyth y cant o'i ymadawyr ysgol ym Mlwyddyn 11 fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH; Llywodraeth Cymru; Mawrth 2011).
- Mae pum deg y cant o'i phoblogaeth yn datgan eu bod yn medru'r Gymraeg. (Estyn, 2009).

Gan fod pob darparwr yn wynebu toriadau i'w cyllideb, mae'r bartneriaeth yn datgan ei bod yn dymuno cynnal darpariaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol sy'n helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Mae datganiad cenhadaeth y bartneriaeth yn cydnabod, yn sgil cynnydd mewn diweithdra, ei bod yn bwysig cynnal darpariaeth dysgu oedolion er lles oedolion a theuluoedd, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais oherwydd tlodi.

Dyma'r prif ddarparwyr yn y bartneriaeth:

- Cyngor Sir Gâr;
- Coleg Sir Gâr;
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru, Prifysgol Abertawe; a
- Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae partneriaid eraill yn cynnwys y Cyngor Gwirfoddol Sirol – Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, (CAVS) a phrifysgolion lleol: Abertawe, Aberystwyth, a'r Brifysgol Agored.

¹ Gweler, Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer 2007

Crynodeb

Perfformiad presennol y darparwr	Digonol
Rhagolygon gwella'r darparwr	Da

Perfformiad presennol

Bernir bod darpariaeth y bartneriaeth yn ddigonol oherwydd:

- bod dysgwyr sy'n fwy anodd eu cyrraedd wedi cael eu recriwtio i'r ddarpariaeth ers yr arolygiad diwethaf; a
- bod llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r ddarpariaeth fel cam at ddysgu pellach.

Fodd bynnag:

- nid yw cyrhaeddiad mewn addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf;
- nid yw'r strategaeth i adolygu'r ymdrech i wella ansawdd mewn addysgu ac asesu wedi bod yn ddigon effeithiol i symud addysgu digonol i addysgu da neu ragorol; ac
- nid oes strategaeth effeithiol i ddatblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y ddarpariaeth.

Rhagolygon gwella

Mae gan y bartneriaeth ragolygon gwella da oherwydd:

- bod yr adolygiad diweddar o gyflwyno ac ariannu'r ddarpariaeth i'w gweddu'n agosach â blaenoriaethau'r bartneriaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn dangos gwelliannau addawol;
- bod hanes diweddar o bartneriaid yn gwneud penderfyniadau anodd er mwyn ailffurfio'r ddarpariaeth;
- bod gan uwch reolwyr y bartneriaeth ac aelodau etholedig y gallu a'r cynhwysedd i wneud gwelliannau a'u rhoi ar waith; a
- bod lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithrediad ymhlith y partneriaid sy'n rhoi cymorth da i flaenoriaethau strategol y bartneriaeth.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r bartneriaeth:

- A1 wella safonau dysgu ac addysgu, yn enwedig mewn ASO a SSIE;
- A2 defnyddio data yn well i osod targedau ar gyfer gwella;
- A3 gwella'r strategaethau ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd;
- A4 gwella monitro ac arfarnu hyfforddiant ar ddiogelu; a
- A5 hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu mewn dosbarthiadau ac ar draws y ddarpariaeth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd tîm bach o arolygwyr yn dychwelyd ymhen rhyw flwyddyn am dridiau i adolygu'r cynnydd a wnaed yn rhoi'r argymhellion ar waith.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

At ei gilydd, mae dysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni safonau digonol yn eu gwaith. Yn gyffredinol, maent yn cyflawni mwyafrif eu nodau dysgu ar yr un lefel â dysgwyr eraill sy'n oedolion ledled Cymru.

Er bod cyrhaeddiad dysgwyr yn dangos tuedd ar i lawr mewn ASO, mae'n parhau i fod yn agos at y cymharydd cenedlaethol. Gostyngodd cyrhaeddiad dysgwyr mewn SSIE dros y tair blynedd diwethaf, ac mae islaw'r cymharydd cenedlaethol erbyn hyn.

Mae cyrhaeddiad dysgwyr ar gyrsiau achrededig yr awdurdod lleol wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau i fod islaw'r cymharydd cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau 'dysgu eraill i oedolion' Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De Cymru) a Choleg Sir Gâr yn cwblhau eu cyrsiau yn dda ac yn cyflawni safonau da.

Mae tua hanner y dysgwyr ASO a SSIE yn datblygu medrau boddhaol mewn llythrennedd, rhifedd a siarad, ond mae'r dysgwyr hyn yn aml yn gweithio ar lefelau islaw eu gallu asesedig ac nid ydynt yn herio eu hunain. O ganlyniad, mae eu cynnydd yn araf.

Mae llawer o grwpiau arbenigol o ddysgwyr yn cyflawni safonau da yn eu gwaith. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni adfer ar ôl cymryd cyffuriau yn defnyddio medrau sylfaenol i greu cylchlythyr ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Mae llawer o ddysgwyr a ymrestrodd ar gyrsiau dros y tair blynedd diwethaf wedi ymgymryd â dysgu pellach gyda'r bartneriaeth.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o'u cynlluniau dysgu unigol i wella eu dysgu a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ASO a SSIE yn defnyddio eu cynlluniau dysgu yn ddigon da i osod targedau penodol ac adolygu eu cynnydd, ac nid yw pob un o'r dysgwyr yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu hastudiaethau.

Mae dysgwyr Cymraeg yn gweithio'n dda yn ddwyieithog, pan gânt gyfle i wneud hynny.

Lles: Da

At ei gilydd, mae lles dysgwyr yn dda. Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu'n fawr ac yn teimlo'u bod yn cael eu hamddiffyn yn dda yn teimlo'n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol. Mae presenoldeb dysgwyr yn dda. Maent yn edrych ymlaen at eu sesiynau ac yn cymryd rhan yn dda. Mae dysgwyr ar fwyafrif y cyrsiau yn dangos medrau dysgu annibynnol. Maent yn gweithio'n dda yn y dosbarth. Mae pob dysgwr yn magu hyder ac mae llawer ohonynt yn defnyddio eu

dysgu i ymgysylltu â'u cymuned mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, mae nifer fach o ddysgwyr celf a chreffft wedi mynd ymlaen i farchnata a gwerthu eu gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn dweud mai hwn yw'r tro cyntaf iddynt gael yr hyder i gymryd rhan a mynd ati i ddysgu ers tro. Mae dysgwyr hŷn yn defnyddio eu dysgu yn dda i gynnal eu hiechyd ac aros mewn cysylltiad â'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cefnogi ei gilydd yn dda, yn rhoi adborth adeiladol i'w gilydd ac yn helpu ei gilydd i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn awyddus i wella eu medrau ac am wneud cynnydd pellach. Fodd bynnag, dywed rhai dysgwyr hŷn nad ydynt yn cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud nesaf ar ôl iddynt orffen eu cwrs ac nad yw'r cymorth sydd ar gael iddynt bob amser yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

At ei gilydd, mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang o raglenni, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr a'r gymuned yn dda. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth dargedig ar gyfer ystod eang o ddysgwyr ac mae wedi helpu partneriaid i ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd neu sy'n perthyn i grwpiau bregus nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn dysgu, fel Sipsi Deithwyr.

Mae dau bartner yn y bartneriaeth wedi adolygu eu darpariaeth yn ddiweddar ac maent wedi gwella canran y cyrsiau lle gall dysgwyr gael achrediad am eu dysgu. Yn sgil hyn, newidiodd lleiafrif o ddysgwyr eu sesiynau dysgu o gyrsiau i glybiau a chymdeithasau sy'n ariannu eu hunain.

Mae'r berthynas dda iawn rhwng y bartneriaeth 14-19 a'r bartneriaeth DOG wedi golygu y gall y bartneriaeth DOG rannu adnoddau gyda'r bartneriaeth 14-19 i wella'r profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Er enghraifft, bu gwelliant yn ansawdd y cyfleusterau gweithdy ar gyfer oedolion yn nhref Caerfyrddin.

Mae partneriaid, yn cynnwys y rhai o addysg uwch, yn casglu a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am y farchnad lafur, sy'n helpu cynllunio'r cwricwlwm. Mae partneriaid o addysg uwch, a Chymunedau yn Gyntaf, yn cyflwyno ystod dda o gyrsiau rhagflas. Mae hyn yn ddefnyddiol i ddysgwyr oherwydd gallant ddarganfod pa gyrsiau sydd ar gael a phrofi'r hyn sy'n cael ei gynnig cyn ymuno â chwrs yn ffurfiol.

Mae'r bartneriaeth yn datblygu medrau llawer o ddysgwyr ond nid oes strategaeth ddigon clir i sicrhau bod safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn gwella. Pan fo angen i ddysgwyr wneud hyn, nid ydynt bob amser yn cael lefel uchel o gymorth yn gyson i ddatblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol. Nid yw tiwtoriaid bob amser yn annog dysgwyr sydd angen cymorth i ofyn amdano i wella medrau sylfaenol yn gyffredinol. Nid yw digon o diwtoriaid yn meddu ar y medrau neu wedi cael eu hyfforddi i helpu dysgwyr i ddatblygu medrau sylfaenol.

Er bod grŵp cyfrwng Cymraeg ac is-grŵp dwyieithog yn y bartneriaeth, ni wnaed digon o gynnydd effeithiol i wella lefel yr addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

sydd ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned ers yr arolygiad diwethaf.

Mae rhai cyrsiau yn cyflwyno dysgwyr i addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) a thechnoleg amgen. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyson eto i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ADCDFE trwy gyd-destun eu dysgu.

Addysgu: Digionol

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfoes yn dda wrth addysgu ac mae llawer ohonynt yn rhoi heriau priodol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn herio dysgwyr yn ddigonol ac maent yn colli cyfleoedd i roi'r dysgu yn ei gyd-destun. Pan fydd tiwtoriaid yn cynnal asesiad cychwynnol, mewn lleiafrif o achosion, nid ydynt yn defnyddio deilliannau'r asesiadau hyn yn effeithiol ac felly maent yn addysgu dysgwyr ar lefel is na gallu'r dysgwyr. Er mai mantais hyn yw bod hyder y dysgwyr hyn yn gwella, mae'n arafu eu cynnydd.

Caiff mwyafrif y sesiynau addysgu eu paratoi'n dda a'u gwahaniaethu'n dda. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu a deunyddiau dysgu. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o amser i ddysgwyr ymarfer eu medrau. Mae gan bob tiwtor berthynas dda gyda'r dysgwyr, maent yn ennyn eu diddordeb ac yn eu hannog i gymryd rhan. Mewn llawer o sesiynau lle mae tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol (CDUau), maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gofnodi targedau dysgu a monitro cynnydd dysgwyr. Mae'r CDUau hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i fod yn glir ynglŷn â'r cynnydd y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn cofnodi cynnydd dysgwyr nac yn adrodd yn ôl yn effeithiol i ddysgwyr.

Pan fydd tiwtoriaid yn cynnal arsylwadau cymheiriaid o sesiynau, nid ydynt yn mesur ansawdd yn gyson. Maent yn aml yn graddio naill ai'r dysgu neu'r addysgu ac yn ystyried y naill neu'r llall yn fesur o ansawdd yr addysgu. Ni chaiff data o arsylwadau cymheiriaid hunanasesedig eu mesur yn gyson. Mae diffyg dilysrwydd yn y data hwn, ac nid yw'n ddigon dibynadwy i'w ddefnyddio fel ffordd o fesur ansawdd yr addysgu.

Mae mwyafrif y sesiynau sy'n cael eu harsylwi gan y tîm arolygu yn dda neu'n rhagorol ond digonol yn unig yw lleiafrif sylweddol ohonynt. Gwnaed cynnydd araf ers yr arolygiad diwethaf, ac mae addysgu gormod o diwtoriaid yn ddigonol yn unig.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digionol

At ei gilydd, mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael gofal a chymorth da gan diwtoriaid. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwarchod yn y lleoliadau a'r dosbarthiadau y maent yn eu mynychu. Nifer fach o diwtoriaid yn unig sy'n mynd i'r afael ag absenoldebau mewn modd systematig. Mewn rhai sesiynau, caiff iechyd a diogelwch eu hatgyfnerthu'n dda mewn cynlluniau gwersi. Ceir cyfeiriadau defnyddiol at fwyta'n iach mewn rhaglenni llythrennedd teuluol, ond nid yw pob un o'r tiwtoriaid yn cynnwys materion iechyd a lles yn eu sesiynau.

Caiff llawlyfrau dysgwyr ar gyfer mwyafrif darparwyr y bartneriaeth eu cyflwyno'n dda ac maent yn ddeniadol. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda gyda sefydliadau arbenigol i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mewn un ddarpariaeth gymunedol ar gyfer Sipsi Deithwyr, mae staff yn cysylltu'n dda â gwasanaethau cymorth eraill i helpu dysgwyr i gymryd rhan.

Mae gan bob gweithiwr cymunedol gymhwyster arweiniad sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw digon o staff yn gwybod digon am gyfleoedd dilyniant i ddysgwyr. Nid oes digon o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arweiniad gyrfaoedd annibynnol i'w helpu i gynllunio eu dewisiadau dilyniant. Mewn un achos, teimlai rhai dysgwyr yn siomedig ynglŷn â'u llwybrau dilyniant oherwydd nad oedd darparwr partner yn cyfathrebu â nhw ynglŷn â hyfywedd cwrs.

Mae gan y partneriaid allweddol bolisiâu a gweithdrefnau diogelu priodol. Mae pob tiwtor wedi cael gwiriad gan y SCT. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn deall beth i'w wneud os ydynt yn nodi oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn ddigon clir ynglŷn â beth i'w wneud ac nid yw rhai ohonynt yn glir ynghylch beth yw oedolyn sy'n agored i niwed. Nid yw pob tiwtor wedi cael hyfforddiant diogelu. Nid oes gan y bartneriaeth strategaethau digon clir ar waith i fonitro gweithdrefnau diogelu.

Mae rhai tiwtoriaid yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion iechyd meddwl dysgwyr wrth gynllunio'r dysgu. Lle nodwyd bod gan ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, mae tiwtoriaid yn ymateb yn dda i sicrhau eu bod yn cael cymorth unigol. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn datblygu deunyddiau dysgu ychwanegol, personol i helpu dysgwyr i lwyddo. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r addasiadau sydd eu hangen ar ddysgwyr wedi cael eu gwneud yn y dosbarth.

Yr amgylchedd dysgu: Da

At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn rhoi sylw da i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae llawer o diwtoriaid yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o amrywiaeth. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr i ddarganfod am hanes eu diwylliant ac archwilio iaith Romani. Mae un tiwtor yn llunio deunyddiau dysgu teirieithog defnyddiol ar gyfer siaradwyr Rwseg, sy'n gwella'r cynnydd a wna dysgwyr Rwseg. Mae tiwtoriaid yn dathlu cyflawniadau dysgwyr sy'n oedolion yn dda, gan helpu iddynt fagu hyder yn eu gallu i ddysgu medrau newydd.

Mae safon yr adnoddau dysgu yn y rhan fwyaf o leoliadau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio adnoddau dysgu, yn cynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, yn dda i ysgogi ymglymiad y dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o arddangosiadau sy'n hybu dwyieithrwydd neu ymwybyddiaeth o ddiwylliant neu hanes Cymru.

Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o leoliadau cymunedol ledled Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn annog dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn cymunedau anghysbell, i gymryd rhan mewn dysgu. Mewn lleoliadau felly, mae llawer o diwtoriaid yn gwneud defnydd da o liniaduron i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i fanteisio ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mewn rhai lleoliadau cymunedol

nad ydynt yn cynnwys offer delfrydol, mae tiwtoriaid yn fedrus yn defnyddio adnoddau cyfyngedig yn dda i greu amgylchedd dysgu da. Mae lleoliad y gwasanaeth prawf, lle caiff troseddwyr gymorth i wella eu medrau sylfaenol, yn cynnwys offer da iawn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn cynnig mynediad da i ddysgwyr â symudedd cyfyngedig, er nad yw mynediad corfforol mewn un ganolfan yrfaedd yn ddigon da.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Da

Mae Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin (CACLG) yn cyflawni rôl strategol wrth reoli a ffurfio'r ddarpariaeth DOG. Yn ddiweddar, mae wedi sefydlu tri is-grŵp i fonitro a gwella gwaith y bartneriaeth. Mae'r is-grwpiau hyn yn ymdrin â:

- chwricwlwm ac ansawdd;
- addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg; ac
- ASO a SSIE.

Mae aelodau CACLG yn cwmpasu cynrychiolaeth dda o bartneriaid a chymysgedd o arbenigedd cyllid, ansawdd, chwricwlwm ac ymchwil i'r bartneriaeth. Mae'r is-grwpiau yn cyflawni rôl fonitro ddefnyddiol, ond nid ydynt wedi cael digon o ddylanwad ar wella ansawdd a safonau yn gyffredinol eto.

Mae uwch swyddogion o fewn y bartneriaeth ac aelodau etholedig o'r awdurdod lleol wedi ymrwymo'n gryf i gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned yn llwyddiannus ledled y sir. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sefydlu dysgu oedolion fel elfen bwysig o bolisiau dysgu gydol oes yr awdurdod. Mae strwythur rheoli clir a ddeallir yn dda ar gyfer y bartneriaeth. Mae gan uwch swyddogion a rheolwyr o fewn y bartneriaeth berthnasod gweithio da. Mae aelodau'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i fodloni anghenion dysgwyr sy'n oedolion. Maent wedi gwneud penderfyniadau anodd i leihau ehangder y ddarpariaeth ar draws y bartneriaeth a chyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithlon. Trwy wneud y penderfyniadau hyn, mae'r bartneriaeth wedi gwella'r cyrsiau achrededig sydd ar gael. Mae hefyd wedi canolbwyntio ar wella ansawdd a safonau ar draws y ddarpariaeth. Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan uwch swyddogion a rheolwyr wedi arwain at reoli'r ddarpariaeth yn well a rheoli'r gyllideb yn well, yn enwedig darpariaeth yr awdurdod lleol a'r coleg.

O ganlyniad i adolygiad yn Chwefror 2010, mae'r bartneriaeth wedi cytuno i weithio ar gynllun deg pwynt i wella'r gwasanaeth. Mae'r cynllun deg pwynt wedi'i seilio ar argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae pwyllgor craffu Adran Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin yn cael adroddiadau am waith y bartneriaeth DOG. Maent yn dilyn hynt a helynt y cynnydd a wna'r bartneriaeth ar y camau a'r targedau yn y cynllun deg pwynt.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan is-grŵp cwricwlwm ac ansawdd y bartneriaeth gylch gorchwyl clir i fonitro system ansawdd y bartneriaeth. Mae'r is-grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn monitro a rhannu data ar draws darparwyr.

Mae'r is-grŵp yn llunio'r adroddiad hunanasesu blynyddol (AHA) a'r cynllun datblygu ansawdd o adroddiadau hunanasesu darparwyr unigol. Mae gan bob darparwr yn y bartneriaeth ei drefniadau gwella ansawdd ei hun, yn cynnwys systemau i arsylwi tiwtoriaid yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, ni fu digon o welliant yn nifer y sesiynau addysgu da a rhagorol ers yr arolygiad diwethaf. Nid yw arfarniad darparwyr o berfformiad dysgwyr ar draws y bartneriaeth wedi gwella digon ac nid yw systemau'n gyson eto. Nid yw'r is-grŵp yn gwneud digon i ysgogi gwelliannau mewn ansawdd a safonau ar draws y bartneriaeth i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd gorau.

Nid yw'r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys digon o dargedau heriol ar gyfer gwella safonau.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth da i'r bartneriaeth, sy'n helpu gwella ansawdd. Mae wedi sefydlu tri phwyllgor rheoli ardal ac mae swyddog dysgu cymunedol ardal ynghlwm wrth bob un. Mae'r swyddogion hyn yn galluogi dysgwyr i gynnig eu safbwyntiau ar gynllunio'r ddarpariaeth yn lleol. Ceir enghreifftiau da o ganolfannau a gwasanaethau unigol yn casglu safbwyntiau dysgwyr trwy holiaduron ac o gyfarfodydd grŵp defnyddwyr y ganolfan. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn arwain at awgrymiadau defnyddiol i wella ansawdd y gwasanaeth, ond maent yn aml yn ymwneud gormod â threfniadau mewnol.

Mae prosesau hunanasesu'r bartneriaeth yn arfarnol ac mae'r barnau wedi'u seilio ar ystod o ffynonellau ansawdd. Roedd y materion a nodwyd yn yr adroddiad hunanasesu fwy neu lai'n debyg i'r rhai a nodwyd gan dîm arolygu Estyn. Fodd bynnag, roedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cwestiwn allweddol yn yr AHA yn fwy hael na'r rhai a ddyfarnwyd gan dîm arolygu Estyn.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd digonol yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud digon o gynnydd i wella lefel y cyrhaeddiad a gyflawnir, yn benodol, gan ddysgwyr ASO a SSIE neu i annog mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu gyda'i gilydd a chyda thiwtoriaid ar draws y ddarpariaeth.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y bartneriaeth ystod dda o bartneriaid priodol i gyflwyno'r rhaglen dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys Coleg Sir Gâr, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De), yr Ysgol Iaith Ranbarthol, Prifysgol Abertawe, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Aberystwyth, y Brifysgol Agored, Gyrfa Cymru Gorllewin a Chyngor Ardal Wledig Llanelli. Cynrychiolir y rhain i gyd ar CACLG a chynrychiolydd o Gyrfa Cymru sy'n cadeirio'r bartneriaeth.

Y cyngor sir a'r coleg addysg bellach lleol sy'n cyflwyno mwyafrif y ddarpariaeth ac mae'r bartneriaeth rhwng y darparwyr hyn yn arbennig o gryf. Mae rheolwyr strategol o ddarparwyr y bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ac fe gânt drafodaethau agored a gonest ar gyfeiriad y ddarpariaeth yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, maent wedi cynllunio rhaglen uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant ledled y sir.

Mae'r bartneriaeth yn cyfrannu'n dda i Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin Cymru ac mae'n dechrau defnyddio'r data helaeth a'r cyfleusterau mapio yn yr arsyllfa dysgu a medrau rhanbarthol.

Mae pob partner yn rhannu cyfrifoldeb cyfartal am lwyddiant y bartneriaeth ac mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a pharch ymhlith y rheolwyr sy'n ymwneud â'r partneriaid.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o nifer o ffrydiau incwm, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd, trefniadau rhyddfrait a chyfraniad gan y cyngor sir i gyflwyno ystod o ddarpariaeth gymunedol i oedolion mewn lleoliadau priodol ledled y sir.

Mae pob uwch reolwr yn ymwybodol iawn o'r costau a'r blaenoriaethau heriol wrth gyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn sir a chanddi ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae rheolwyr yn gwybod cost darparu cyrsiau achrededig a heb eu hachredu a goblygiadau ariannol darparu'r rhain mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ddysgwyr. Mae gan y bartneriaeth ffioedd cwrs a ffioedd lleoliad safonol ac mae wedi lleihau'r ddibyniaeth ar gyfraniad y cyngor ar gyfer dysgu oedolion trwy effeithlonrwydd gwell a chyflwyno mwy o gyrsiau achrededig. Mae rheolwyr yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn dda i ddarparu adeiladau ac adnoddau priodol ar gyfer dysgu.

Mae gan fwyafrif y staff gymwysterau a phrofiad priodol i gyflwyno eu cyrsiau. Caiff staff, yn cynnwys staff rhan-amser, gyfle i fanteisio ar ddatblygiad staff priodol, yn cynnwys cyfarfodydd hyfforddi tiwtoriaid rheolaidd a chyfleoedd i rannu arfer dda mewn addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ni chaiff y gweithgareddau datblygu staff hyn ddigon o effaith ar wella safonau dysgwyr a chynyddu swm yr addysgu da a rhagorol.

Mae uwch reolwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac yn adolygu'r costau sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth ryddfrait yn rheolaidd. At ei gilydd, mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn ddigonol ac mae'r darparwr yn gwella effeithlonrwydd y cyflwyno. At ei gilydd, mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Bodddhad dysgwyr

Cynhaliodd Estyn arolwg o'r dysgwyr ychydig cyn arolygu'r bartneriaeth.

Dychwelwyd yr holiadur gan ddau gant saith deg o ddysgwyr ac nid oedd wyth deg dau ohonynt wedi cael eu llenwi'n llawn. Fe wnaeth y canfyddiadau helpu Estyn i gael golwg o farn dysgwyr a'u profiad o'r ddarpariaeth a gyflwynir yn ardal y bartneriaeth ar hyn o bryd.

Dywedodd bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu. Dywedodd pob un o'r dysgwyr fod staff y bartneriaeth yn dangos parch at ddysgwyr a'u bod yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon yn dda neu'n dda iawn. Teimlai rhai dysgwyr nad oedd mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael iddynt.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Enid Hankins AEM	Arolygydd Cofnodol
Mark Evans AEM	Arolygydd Tîm
Alun Connick AEM	Arolygydd Tîm
Huw Collins AEM	Arolygydd Tîm
Liam Kealy AEM	Arolygydd Tîm
Sally Stringer	Arolygydd Ychwanegol
Anne Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Maggie Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Matt Morden	Enwebai'r Darparwr